# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 17EG MEHEFIN, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

***(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 07/06/24)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

**5. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH** 8 - 12

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2023-24** 13 - 37

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 38 - 39

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

# PWYLLGOR SAFONAU, 19/02/24

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Gan gyfeirio at eitem 7, nododd y Cadeirydd, Mr Hywel Eifion Jones, ei fod yn aelod lleyg ar Banel Dyfarnu Cymru.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2023 a 10 Ionawr, 2024 (Cyfarfod Arbennig) fel rhai cywir.

**5. DYLETSWYDDAU ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i gymeradwyo meini prawf ar gyfer monitro ac adrodd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau.

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod yr argymhelliad i'r pwyllgor yn seiliedig ar awgrymiadau a ddatblygwyd gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru fel dangosyddion posib' ar gyfer meintioli a mesur y ddyletswydd.
- Bod yr argymhelliad yn caniatáu i'r pwyllgor dderbyn adroddiad ystyrlon ar ddiwedd y flwyddyn ynglŷn â sut mae'r ddyletswydd wedi gweithio, a hefyd yn caniatáu iddo yntau, fel Swyddog Monitro, adrodd i'r pwyllgor mewn cyd-destun lle mae pawb yn deall beth yw'r disgwyliadau, ayb, ar ei gyfer.
- Y cydnabyddiad nad yw'r ddyletswydd yn un sy'n priodoli ei hun i ddata neu ystadegau'n hawdd, a'i bod fwy i wneud â diwylliant a chloriannu barn.

- Bod y meini prawf yn cynnwys 8 o faterion y gellid eu rhoi ymlaen fel man cychwyn i adrodd yn eu herbyn o ran sut mae'r Arweinyddion wedi cydweithio mewn ffordd ymarferol ar hyrwyddo'r ddyletswydd.
- Mai'r argymhelliad oedd i beidio cynnwys yr opsiynau isod yn y meini prawf am y rhesymau a nodir:-
  - *Arweinwyr Grwpiau i sicrhau, lle mae yna benderfyniad polisi gan y Cyngor, bod aelodau'r Grŵp yn glynu atynt* – credid bod y mater hwn yn mynd i dir anodd o ran hawl mynegiant aelodau a hawl aelodau i anghytuno.
  - *Arweinwyr Grwpiau i sicrhau nad yw gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi allan yn y byd cyhoeddus er osgoi niweidio enw da'r Cyngor* – ystyriwyd fod hyn yn agored i ddehongliad a byddai materion megis dwyn anfri dan y Cod yn fwy perthnasol.
  - *Arweinwyr Grwpiau i sicrhau bod gwiriadau DBS yn cymryd lle'n briodol* – credid bod y mater hwn, o bosib', yn priodoli ei hun i amgylchiadau penodol mewn rhai cynghorau, yn hytrach nag yng Ngwynedd.
- Iddo gynnal trafodaethau defnyddiol ac adeiladol gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol yn ystod mis Ionawr ynglŷn â materion sy'n codi ac i gytuno ar gyfeiriad, ayb.
- Bod y cydweithio hyd yma yn argoeli'n broses adeiladol a fydd, gobeithio, yn cyfrannu at gynnal safonau ymddygiad yn y Cyngor, ac efallai'n gyfrwng i drafod materion cyn iddyn nhw ddatblygu.
- Mai'r un her oedd y cwrs Cod Ymddygiad i aelodau a bu llai o ddiddordeb na'r disgwyl yn y cwrs i'w gynnal ar 21 Chwefror. Bwriedid ail redeg y cwrs yn ystod mis Ebrill a byddai'n gyfle hefyd i gael trafodaeth gyda'r Arweinyddion ac i annog presenoldeb ar y cyrsiau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r meini prawf ar gyfer monitro ac adrodd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau (Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor), ynghyd â'r templed ffurflen adrodd (Atodiad 2).**

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn derbyn copi o'r ffurflen adrodd yn dilyn y cyfarfod hwn.

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Ar bwynt o eglurder, nododd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau y dylai'r fersiwn Gymraeg o frawddeg ddiwethaf y crynodeb i'r ail gŵyn (Atodiad 2 i'r adroddiad) ddarllen '*Dewisodd yr aelod gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon i'w ystyried yn hytrach na mynd drwy Drefn Datrys Lleol y Cyngor'*.

Nododd y Swyddog Monitro fod yr ail gŵyn yn amlygu pa mor anodd yw tynnu'r ffin rhwng llefaru rhydd a dweud rhywbeth a allai fod yn dramgwyddus i rai pobl ac roedd yn falch o gefnogaeth yr Ombwdsmon i'r drefn datrys lleol yn ei sylwadau ar yr achos.

Holwyd a oedd yr Ombwdsmon, o bosib', yn awgrymu bod yna ddiffyg ymddiriedaeth yn y drefn datrys lleol, ac a ellid bod yn hyderus bod y drefn yn gadarn ac yn effeithlon. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y drefn mewn lle a bod addasiadau wedi'u gwneud iddi bellach a thrafodaeth wedi'u cynnal gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol hefyd.

- Ei bod yn naturiol, wrth fynd i drefn fel hyn, bod cwestiynau'n codi, ond anogid yr aelodau i gael sgwrs gydag ef yn gyntaf ynglŷn â'r camau a roddir mewn lle i sicrhau bod y broses yn deg ac yn briodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2022-23

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer 2022-23 er sylw'r pwyllgor.

Nododd y Swyddog Monitro fod achos APW/008/2021-022/CT ar dudalen 34 o'r rhaglen yn amlwg yn croesi'r ffin o safbwynt hawl mynegiant, ac yn tanlinellu, er y gall aelodau feirniadu cysyniadau neu anghytuno â barn rhywun, bod gwneud datganiadau sydd yn ffeithiol anghywir, ayb, yn golygu bod y warchodaeth yn diflannu'n sydyn.

Sylwyd bod y crynodeb o achos APW/009/2021-022/CT, hefyd ar dudalen 34 o'r rhaglen, yn nodi ei bod yn ymddangos, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nad oedd y Cyngor dan sylw wedi cydymffurfio â'r argymhellion o fewn yr amserlen ofynnol, a holwyd beth fyddai canlyniad hynny. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod yr adroddiad yn argymell y dylai holl gynghorwyr presennol y Cyngor dan sylw fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad, ayb, ond nad oedd grym penodol, ar hyn o bryd, i orfodi materion o'r fath ar gyngor cyfan. Fodd bynnag, petai achos arall yn codi yn yr un cyngor, byddai'r Ombwdsmon yn cymryd sylw o'r ffaith na ddarparwyd hyfforddiant ayb.
- Bod un o'r trafodaethau yn sgil adolygiad Penn yn ymwneud ag ehangu pŵer, er enghraifft, Pwyllgor Safonau, i fynnu bod camau penodol, megis mynychu hyfforddiant, yn cymryd lle.
- O ran yr achos dan sylw, petai'r broblem yn parhau a bod yna ganfyddiadau pellach, o bosib' y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at yr archwilwyr yn y pen draw os yw diwylliant y cyngor yn cyrraedd y lefel yna.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, nododd y Cadeirydd ei fod yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau a'i fod wedi gofyn i'r Swyddog Monitro gylchredeg cofnodion y cyfarfod diwethaf i aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth unwaith y byddent ar gael.

Nododd y Swyddog Monitro iddo roi cyflwyniad i'r Fforwm ar ei rôl fel Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac o bosib' y gallai roi'r un cyflwyniad i'r pwyllgor hwn hefyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 10.50yb.

<u>CADEIRYDD</u>

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **17 Mehefin 2024** |
| **TEITL** | **Hunan Asesiad a Rhaglen Waith** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2023-24 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2024-25

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

   (e) a'r swyddogaethau penodol yma

   (f) Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned

   (g) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

   (h) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r

swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i'r maes.

Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

6. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2024-25

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o'r perfformiad yn 2023-2024 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2024-2025**

**ATODIAD 1**

**HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2023/24**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi Fforwm Safonau Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau. | |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.<br><br>Ond, adolygwyd y Drefn Datrys Mewnol i gefnogi dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol dan 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn | | Trefnwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad llawn ar gyfer aelodau gyda'r sesiwn | Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | gyntaf yn cymryd lle yn ystod Chwefror a'r ail ym Mis Ebrill | pellach gan fod nifer o aelodau heb fynychu |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Trafodwyd a dyfarnwyd dau gais am oddefeb gan y Pwyllgor yn Chwefror 2024 | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Cynhaliwyd 1 gwrandawiad yn ystod y flwydd ynglŷn ag Aelod Cyngor Gwynedd<br><br>Yn ogystal adolygwyd y drefn ar gyfer gwrandawiadau er cryfhau y cyfathrebu. | |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyo gydag ymchwiliad | | Dim i;w adrodd | |
| Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br><br>Cynghori hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny. | | Cynhaliwyd sesiwn ar y cyd gyda Arweinyddion Grwpiau ac aelodau y Pwyllgor Safonau i ystyried y dyletswydd<br><br>Mabwysiadwyd meini prawf a trefn adrodd ar y dyletswydd.<br><br>Mae'r Swyddog Monitro wedi cyfarfod gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol i drafod materion Cod Ymddygiad | Bydd y trefniadau yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau statudol. |
| Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.<br><br>Fodd bynnag cydnabyddir fod darparu i gweithgaredd megis hyfforddiant wedi bod yn heriol ac mae'r ardal yma angen sylw a dod i gasgliad ynglŷn a ffordd ymlaen | Angen ystyried adfer y rhaglen ar sail rhithiol pan mae adnoddau yn caniatáu |

**ATODIAD 2/ APPENDIX 2**

| **Gwaith Pwyllgor Safonau 2024/2025** | **Standards Committee Work –2024/25** |
|---|---|
| **17 Mehefin 2024**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Hunan Asesiad a Rhaglen Waith | **17 June 2024**<br><br>Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Self-Assessment and Work Programme |
| **4Tachwedd 2024**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Adolygu gweithrediad Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol<br><br>Adolygu trefniadau datrysiad Mewnol<br><br>Derbyn adroddiad o Fforwm Safonau Cymru | **4 November 2024**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest Registers<br><br>Ombudsman’s Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Review the operation of the Group Leaders Protocol<br><br>Review of Internal resolution arrangements<br><br>Receive report from the Wales Standards Forum |
| **Chwefror 2025**<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Hunan Asesiad a Rhaglen Waith<br><br>. | **February 2025**<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members<br><br>Self-Assessment and Work Programme |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Mehefin 2024** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2023-24** |
| **Awdur :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwneud hyn fel modd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod. Rhaid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas a'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

3. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;
- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:
- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

4. Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

5. Atodir Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 i sylw'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

6. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2023 – 2024 (Drafft)

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Hywel Eifion Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

[i ddilyn]

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

**Adroddiad Blynyddol**

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas â'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

- hysbysiadau a roddir i’r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i’r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

Rhaid i’r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy’n dechrau ar y diwrnod y mae’r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

# AELODAU’R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae’n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â’r Cyngor neu lywodraeth leol (‘Aelodau Annibynnol’). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy’n cynrychioli buddiannau’r cynghorau cymuned (‘Aelod Pwyllgor Cymunedol’), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae’n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae’n cyflogi tîm o bron 30 aelod staff a dros 20 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae’n byw ym Mangor gyda Tegwen a’r plant, Cai a Beca. Yn ddiweddar, cwblhaodd gwrs Arweinyddiaeth a Rheoli Lefel 5 yr ILM ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor ac Abertawe. Nod y rhaglen yw creu amgylchedd i alluogi arweinwyr i ddatblygu busnesau arloesol a meithrin sgiliau arwain o'r radd flaenaf. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant, o'r Undeb Ewropeaidd i gyngor cymuned, felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth

cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Môn ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

**Mark Jones (aelod ers Rhagfyr 2022)**

Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn swyddog heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bro Dysynni sydd yn cynnwys pentrefi Bryncrug, Abergynolwyn a Llanegryn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill.

Mae yn aelod o Ferched y Wawr ac yn arwain yn Eisteddfod Abergynolwyn. Mae yn aelod o Bwyllgor Craffu Gofal a Thai a Phwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac wedi bod yn Gadeirydd ar y ddau bwyllgor ers bod yn aelod. Mae hefyd yn gyfarwyddwr a Chadeirydd Cwmni Hamdden Byw'n Iach.

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol y NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

**Cynghorydd Dewi Owen (aelod ers 2022)**

Mae Dewi yn ffermio yn Aberdyfi, ac wedi bod yn Gynghorydd Sir dros Aberdyfi a Phennal ers pymtheg mlynedd, ac ar Gyngor Cymuned Aberdyfi ers pum mlynedd ar hugain. Cafodd ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2014. Mae Dewi wedi bod yn Gadeirydd ar sawl pwyllgor craffu, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar Gyngor Gwynedd, ac wedi ymuno gyda'r Pwyllgor Safonau ers 2022.

Mae Dewi yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn, ac yn aelod o sawl pwyllgor lleol, fel Sioe Sir Meirion, Undeb Amaethwyr Cymru ac 'Aberdyfi Advertising & Improvements Committee.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2023 - 2024

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Ystyriod y Pwyllgor un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn.Cyfeiriwyd cwyn yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes, Cyngor Gwynedd at y Pwyllgor am benderfyniad gan yr Ombwdsmon. Mewn gwrandawiad ar 18/04/23 penderfynodd y Pwyllgor fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ac y dylai gael ei gwahardd am gyfnod o 1 mis.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau gais am oddefeb yn ei gyfarfod ar 10/01/24. Caniatawyd goddefebau i'r Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen, Cyngor Gwynedd i'w caniatáu i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi at y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod Cynllun Awtistiaeth Gwynedd, ar yr amod nad oeddynt yn cael eu penodi yn gadeirydd y Grŵp Tasg.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru

Mae Fforwm Genedlaethol Pwyllgorau Safonau Cymru bellach wedi ei sefydlu, er mwyn rhannu arfer da a chydlynu ymarfer a chreu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion. Mae cadeiryddion holl bwyllgorau safonau Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd ynghyd â chynrychiolaeth o Swyddogion Monitro i ddarparu cyngor proffesiynol. Darperir yr ysgriefynddiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cefnogaeth i Aelodau Cynghorau Cymuned , Tref a Dinas

Mae 3 elfen o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad:

1. **Cyngor ar faterion penodol** - drwy gysylltu gyda’r Swyddog Monitro neu’r Dirprwy Swyddog Monitro.

2. **Gwefan Cyngor Gwynedd** - Tudalen Pwyllgor Safonau yn cynnwys o wybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.

3.**Hyfforddiant** - y bwriad yw cynnal hyfforddiant rhithiol ar ffurf ‘webinar’. Byddai hyn yn creu adnodd y gallai aelodau ei wylio pan yn gyfleus iddynt yn hytrach na gorfod dibynnu ar sesiynau mewn mannau ac ar amseroedd penodol.

## Dyletswydd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol

[i ddilyn]

**Atodiad 1**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2023-2024

**18 Ebrill 2023**

Gwrandawiad i ystyried a phenderfynu ar gŵyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**26 Mehefin 2023**

- Penderfynu ar ymatebion i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru
- Hunan Asesiad o waith y Pwyllgor yn ystod 2022/23
- Cymeradwyo Rhaglen Waith ar gyfer 2023/24
- Cymeradwyo adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/23
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**6 Tachwedd 2023**

- Cytuno ar newidiadau i Drefn Ddatrys leol yr awdurdod
- Cymeradwyo addasiadau i Withdrefn Gwrandawiadau y Pwyllgor Safonau
- Derbyn adroddiad ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2022/23
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**10 Ionawr 2024**

- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Gwynedd

**19 Chwefror 2024**

- Cymeradwyo meini prawf ar gyfer monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth gyda dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad aelodau ynghyd â thempled ffurflen adrodd

- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2022/23

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**



$pb1mrnqo

**Rhif Achos: 202201791**
Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus pan wnaeth y Cyngor y penderfyniadau i beidio â chefnogi cais gan drigolion lleol i wrthwynebu cais i Dribiwnlys y Gofrestrfa Tir a wnaed gan gyd-gynghorydd, ffrind i'r Aelod. Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi anfon datganiad o gefnogaeth i gais ei gyd-gynghorydd wedi hynny.

Canfu'r Ombwdsmon fod gweithredoedd yr aelod yn awgrymu torri'r Cod a'i fod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus a'i fod wedi gwneud sylwadau mewn cyfarfodydd o'r cyngor pan na ddylai fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon hefyd nad oedd y cyngor a roddwyd gan gynghorwyr eraill a'r Clerc mor glir ag y gallai fod. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i pherswadio bod y digwyddiadau yma wedi, neu'n debygol o gael, effaith ar enw da'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, gan nad oedd yn glir a fyddai mewnbwn yr Aelod wedi effeithio ar benderfyniad y Cyngor ac roedd yn benderfyniad cyfyngedig a oedd yn effeithio ar grŵp bach o bobl yn yr ardal yn unig. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i pherswadio ychwaith bod yr Aelod wedi defnyddio ei safle yn amhriodol neu mewn ffordd a oedd yn awgrymu torri'r Cod oherwydd, pe bai wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus, ni fyddai wedi cael ei atal rhag ysgrifennu'r datganiad pe dymunai wneud hynny yn ei rinwedd bersonol ac nid oedd y ffaith ei fod yn aelod o'r Cyngor yn rhoi mantais iddo yn y sefyllfa honno.

Canfu'r Ombwdsmon, er bod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod, roedd effaith gyfyngedig ei weithredoedd, y lliniariad a ddarparwyd gan y cyngor aneglur a gafodd a'r camau y mae wedi'u cymryd ers hynny i gryfhau ei ddealltwriaeth o'i rwymedigaethau, yn golygu na fyddai cymryd camau pellach er budd y cyhoedd.

**Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt**

**Rhif Achos: 202201793**
Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus pan wnaeth y Cyngor y penderfyniadau yn ymwneud â chais y Gofrestrfa Tir a wnaed gan yr Aelod.

Canfu'r Ombwdsmon fod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod. Roedd yr Aelod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus ac roedd wedi gwneud sylwadau pan na ddylai fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon hefyd nad oedd y cyngor a roddwyd gan gynghorwyr eraill a'r Clerc mor glir ag y gallai fod. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i pherswadio bod y digwyddiad hwn wedi, neu'n debygol o gael, effaith ar enw da'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, oherwydd ei fod yn benderfyniad cyfyngedig a oedd yn effeithio ar grŵp bach o bobl yn yr ardal yn unig.

Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i pherswadio ychwaith bod yr Aelod wedi defnyddio ei safbwynt yn amhriodol oherwydd pe bai wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus, y gallai fod wedi cyflwyno ei sylwadau ysgrifenedig, yn ei rinwedd breifat, yn y modd yr oedd gan y partïon eraill.
Canfu'r Ombwdsmon, er bod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod, roedd effaith gyfyngedig ei weithredoedd, y lliniariad a ddarparwyd gan y cyngor aneglur a gafodd a'r camau y mae wedi'u cymryd ers hynny i gryfhau ei ddealltwriaeth o'i rwymedigaethau, yn golygu na fyddai cymryd camau pellach er budd y cyhoedd.

**Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt**

**Rhif Achos: 202302062**
Honnwyd bod cynghorydd cymuned wedi mynd at yr Achwynydd pan oedd hi wedi meddwi a'i holi ynghylch pam y bu'n hwyr i gyfarfodydd y Cyngor a "phethau personol eraill".

Ni ddarparwyd tystiolaeth i brofi'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod.

Mae gan bawb hawl i ryddid barn o dan Erthygl 101 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn fy marn i, gellir dweud yn rhesymol bod y sylwadau y cwynir amdanynt yn gymwys â rhyddid barn. Honnwyd bod y sylwadau wedi'u gwneud pan oedd y Cynghorydd wedi meddwi ac ar adeg/mewn lle amhriodol. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi y gallai'r Achwynydd deimlo sarhad personol oherwydd ymagwedd a sylwadau'r Cynghorydd, nid wyf o'r farn eu bod, ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, yn ddigon sarhaus na brawychus i gyfystyr ag ymddygiad amharchus tuag ato (o fewn ystyr y Cod) nac yn torri'r Cod.

**Canlyniad: Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.**

**Rhif yr Achos: 202303249**
Honnwyd bod y Cynghorydd tref wedi dweud pethau anwir mewn cyfarfod o'r cyngor ac wedi methu ag ymdrin yn iawn â phryder am arian a gasglwyd gan grŵp lleol ar gyfer parcio ceir ar ddiwrnod digwyddiad lleol. Mae'r achwynydd o'r farn mai arian y cyngor oedd yr arian a gasglwyd ar gyfer parcio. Mater i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yw'r pryder nad yw'r Cyngor wedi casglu ffioedd parcio, yn hytrach nag i unrhyw Gynghorydd unigol (hyd yn oed os oedd y Cynghorydd yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar y pryd fel yr honnir). Mae gan yr achwynydd hawl i godi hyn drwy broses gwyno'r Cyngor. Nid yw hwn yn fater sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol Cynghorydd unigol a allai arwain at dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu i awgrymu y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri unrhyw ddarpariaethau yn y Cod Ymddygiad i Aelodau.

**Canlyniad: Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.**

**Rhifau Achos: 202303259 & 202303399**
Ymddygiad cynghorydd sir yn ei rôl fel clerc i gyngor cymuned.

Nid oedd tystiolaeth i awgrymu fod y Cod yn berthnasol pan oedd y cynghorydd yn gweithredu ei rôl fel clerc nag unrhyw gyswllt gyda'r rôl fel cynghorydd sir.

**Canlyniad: Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.**

**Rhif Achos:202304751**
Honnir i'r Aelod fethu â datgan buddiant gan fod ei bartner yn gweithio i Gymdeithas Gymunedol a oedd o blaid defnyddio tir lleol ar gyfer cynllun sy'n cael ei wrthwynebu gan Bwyllgor Trigolion. Honnir hefyd nad oedd yr Aelod yn ddiduedd a bod ymatebion gan yr Aelod yn is-safonol ac amharchus Mae'r Aelod yn Gynghorydd Sir a all fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned fel rhan o'r rôl hon, ond nid yw'n aelod o'r Cyngor Cymuned. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr Aelod wedi cymryd rhan mewn unrhyw fusnes yn y Cyngor Cymuned lle gallai fod wedi disgwyl datgan buddiant neu sicrhau, wrth wneud hynny, ei fod yn parhau'n ddiduedd wrth gymryd rhan neu gyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wnaed.

Er y gwerthfawrogir efallai na fydd yr Achwynydd yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegir mewn ymatebion eraill, nid oes dim i ddangos ei fod yn is-safonol neu'n amharchus ac, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos ei fod yn rhoi cynnig ar rannu gohebiaeth gan y rhai sydd yn erbyn y cynllun a'r rhai sydd o blaid. Er ei fod yn mynegi ei fod ef ei hun o blaid mewn un e-bost, mater i'r etholwyr lleol yw cytuno neu anghytuno â barn wleidyddol yr Aelod drwy'r broses ddemocrataidd. Mae gan yr Aelod, fel unrhyw gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd, hawl i gefnogi cynlluniau a phrosiectau yn yr ardal leol. Am y rhesymau hyn, nid wyf yn argyhoeddedig bod tystiolaeth i awgrymu bod torri'r Cod wedi digwydd.

**Canlyniad: Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor fod yr Aelod wedi ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd X mewn ffordd oedd yn ddiangen, yn drafferthus, yn sarhaus ac yn tanseilio Cynghorydd X. Dywedir bod yr Aelod wedyn wedi bychanu'r Cynghorydd X a dangos amarch iddo wrth ddefnyddio termau fel "asgell dde eithafol" a "gwleidyddiaeth wenwynig" gan niweidio enw da'r Cynghorydd X yn bwrpasol.
Dewisodd yr aelod gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon i'w ystyried yn hytrach na mynd drwy Benderfyniad Lleol y Cyngor.

**Penderfyniad**

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu a fu achosion o dorri'r Cod ymddygiad.**

Mae'r materion y cwynwyd amdanynt yn annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod.

Wrth weithredu fel aelod etholedig a mynegi barn wleidyddol neu gynnal busnes gwleidyddol, mae rhyddid mynegiant aelod yn cael gwell amddiffyniad, yn fwy felly nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Ymhellach, fel gwleidyddion, mae'n debygol y bydd aelodau'n cael eu hamddiffyn hyd yn oed lle gall yr iaith a ddefnyddir ganddynt fod yn ymfflamychol, ar yr amod bod ei ffocws yn wleidyddol. Ond nid yw hawl aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt a rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i ddiogelu hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sydd, a'r hyn nad yw, yn dderbyniol, a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a'r mwyaf tramgwyddus yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf cyfiawn y daw i gyfyngu ar fynegiant gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod Ymddygiad.

Mae'r hunan-gyfeiriad yn cydnabod bod y sylwadau wedi eu gwneud yn ystod cyfarfod o'r Cyngor. Yn gyffredinol, mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod angen "croen trwchus" ar aelodau yn ystod cyfnewidiadau gwleidyddol. Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n rhoi'r hawl i'r Aelod lefaru'n rhydd, yn golygu y gall ddweud pethau a allai fod yn frawychus neu'n dramgwyddus i rai pobl. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi y gallai'r rhai a oedd yn bresennol fod wedi cael eu tramgwyddo'n bersonol gan sylwadau'r Aelod, nid wyf yn ystyried, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, eu bod yn ddigon tramgwyddus, bygythiol neu sarhaus i dorri'r Cod.

Rwy'n cydnabod bod gan y sylwadau a wnaed y potensial i droseddu'r Aelod dan sylw, yn enwedig os nad oeddent yn adlewyrchu ei ddelfrydau gwleidyddol. Yn ogystal, gwnaeth yr aelod sylwadau wrth hunangyfeirio'r mater i'r swyddfa hon ynghylch pam nad oedd yn teimlo y gallai ymgysylltu â phroses datrys lleol y Cyngor. Mae hyn yn peri pryder oherwydd bod perfformiad effeithiol cyngor yn dibynnu ar berthynas da rhwng ei aelodau a'u fod yn dangos parch at ei gilydd. Fyddai'r broses datrys leol wedi bod yn fforwm addas ar gyfer trafod y mathau hyn o bryderon.
Bydd fy ymateb i'r Aelod yn ei atgoffa o hyn a'i rwymedigaethau o dan y Cod.

**(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd**

Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai'r cynnwys yn cael ei ystyried mor sarhaus fel bod cyfyngu ar wneud sylwadau o'r fath yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau a buddiannau pobl eraill. Felly, rwy'n fodlon bod y sylwadau a wnaed yn rhan o ddadl wleidyddol ehangach ac mae gan yr Aelod hawl i gynnal a rhannu'r safbwyntiau hynny, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt. Felly, rwyf o'r farn na fyddai ymchwiliad i'r mater hwn yn briodol.

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i’r gŵyn.

**Rhif Achos: 202205952**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnir bod yr Aelod wedi cynnal ymgyrch casineb Cyfryngau Cymdeithasol parhaus yn erbyn yr achwynydd ers 2017. Dywedodd yr achwynydd fod brawd yr Aelod wedi ei fygwth oherwydd ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor, ac mae hyn wedi cael sylw gan yr Heddlu. Dywed yr achwynydd fod eraill wedi bod yn dyst i'r ymddygiad, ond nid yw wedi nodi'r hyn a welwyd na darparu datganiadau. Felly, ni allaf
ystyried a fyddai'r ymddygiad, hyd yn oed os caiff ei brofi, yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad. Mae hefyd yn nodi bod y tystion honedig yn gysylltiedig â'r Cyngor ac yn ymwybodol o'r broses Cod Ymddygiad. Mae'n agored iddynt wneud cwyn os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

**Fy mhenderfyniad**

1. **A oes tystiolaeth i awgrymu y bu torri'r Cod Ymddygiad.**

Ni ddarparwyd tystiolaeth i gadarnhau'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod.

Dylid nodi hefyd na all yr Ombwdsmon ystyried gweithredoedd brawd yr Aelod a'r corff priodol i ystyried cwynion o'r natur honno yw'r Heddlu.

2. **A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Gan nad oes tystiolaeth wedi'i darparu, o dorri'r Cod Ymddygiad, nid oes angen ymchwiliad.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Dyletswydd Arweinwyr Grŵp**

Mae adran 52A(1)(a) o Ddeddf 2000 (fel y'i pennwyd gan Ddeddf 2021) yn ei gwneud yn ofynnol i arweinydd a grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Diffinnir "grŵp" at y diben hwn fel 2 neu fwy o aelodau sy'n rhoi hysbysiad i'r Swyddog Priodol eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp at ddibenion gofynion cydbwysedd gwleidyddol a dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor.

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir nad yw'r ddyletswydd hon yn gwneud arweinwyr grŵp gwleidyddol yn atebol am ymddygiad eu haelodau, gan fod ymddygiad yn fater o gyfrifoldeb unigol. Fodd bynnag, mae ganddynt rôl resymol i gymryd camau o ran cynnal safonau, gosod esiampl, defnyddio eu dylanwad i hyrwyddo a diwylliant cadarnhaol, bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn eu grŵp a mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi. Petai arweinydd grŵp gwleidyddol yn methu â ymwneud gyda'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon, gellir bosib ystyried ei bod yn dod a'g anfri ar eu swydd , ac yn debygol o fod yn torri'r Cod.

Mae adran 62(3) o Ddeddf 2021 yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ymestyn y swyddogaethau Pwyllgor Safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr gwleidyddol grwpiau sydd â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o eu grŵp. Dylai arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau gytuno ar ffurf ac amlder adroddiad o bob arweinydd grŵp i'r Pwyllgor, a fyddai wedyn yn ystyried pob adroddiad a Rhoi adborth i arweinwyr y grŵp. Rhaid i'r Pwyllgor Safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob Tymor Cyngor dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid ei adolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor Safonau gwrdd â grŵp arweinwyr o bryd i'w gilydd i adolygu trefniadau.

Ym Mis Tachwedd 2023, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ag arweinwyr y tri grŵp gwleidyddol ar y Cyngor – Plaid Cymry , Grŵp Annibynwyr a Rhyddfrydwyr/Llafur i gytuno sut y dylid monitro'r ddyletswydd hon a natur ac amlder y wybodaeth y dylid ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Llwyddwyd i gytuno ar y meini prawf canlynol:

1. Arweinwyr Grwpiau i sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn,
2. Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau i gefnogi y Swyddog Monitro I i drefnu fod-Aelodau o fewn eu grŵp ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro yn ôl yr angen,
3. Arweinwyr Grwpiau i cymryd camau gyda'r amcan fod Aelodau yn eu grŵp yn cydweithio â'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau pan gyfeirir mater at y Swyddog Monitro a/neu'r Pwyllgor Safonau,
4. Arweinwyr Grwpiau i gofnodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn eu Grwpiau a'u codi gyda Swyddog Monitro AU mewn modd amserol.
5. Arweinwyr grwpiau i gefnogi presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi.
6. Arweinwyr Grŵp i gwblhau profforma Arweinydd y Grŵp, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen,

7. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol (yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ~~)~~ yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol),
8. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r swyddog Monitro bob tri mis a ~~a~~ Chadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith ystod pob blwyddyn Cyngor. .

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Arweinyddion Grwpiau a'r Swyddog Monitro yn ystod y flwydd yn i drafod ymddygiad aelodau. Yn Nhachwedd 2023 cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau'r Pwyllgor safonau a'r Arweinyddion grwpiau i drafod y rolau ac i sefydlu meini prawf ar gyfer monitro cyflawniad. O ganlyniad i hyn mabwysiadwyd y meini prawf a osodir uchod i gefnogi adrodd ar y dyletswydd. Mabwysiadwyd y gyfundrefn yma gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod yn Chwefror 2024. Cytunwyd hefyd i argymell addasu y Drefn Datrys mewnol i roi rôl mwy amlwg i'r Arweinyddion yn y prosesau datrys. Mae hyn wedi bod yn ddechrau cadarnhaol i'r berthynas rhwng y Pwyllgor a'r Arweinyddion Grwpiau. Fodd bynnag mae sicrhau presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant Cod Ymddygiad yn parhau yn dalcen caled gyda nifer heb eto gwblhau y cwrs llawn er fod sesiynau wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod.

**<u>Group Leaders duty</u>**

Section 52A(1)(a) of the 2000 Act (as emended by the 2021 Act) requires that a leader of a political group consisting of members of a county council or county borough council in Wales, must take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of the group. A "group" for this purpose is defined as 2 or more members who give notice to the Proper Officer that they wish to be treated as a group for the purposes of political balance requirements and the allocation of seats on Council Committees

The guidance makes it clear that this duty does not make leaders of a political group accountable for the behaviour of their members, as conduct is a matter of individual responsibility. However, they do have a role in taking reasonable steps in maintaining standards, setting an example, using their influence to promote a positive culture, being proactive in promoting high standards of conduct in their group and addressing issues as soon as they arise. A leader of a political group who fails to comply with the new duty in a meaningful way, may potentially be regarded as bringing their office into disrepute, and likely to be in breach of the Code.

Section 62(3) of the 2021 Act amends section 54 of the 2000 Act to extend the specific functions of a Standards Committee to include monitoring compliance by leaders of political groups with the new duty to promote and maintain high standards of conduct by members of their group. Political group leaders and Standards Committee should agree on the form and frequency of a report from each group leader to the Committee, which would then consider each report and provide feedback to the group leaders. Standards Committee must also provide advice and training or arrange to train group leaders on the new duty. At the start of each Council term this should take place within six months of the election and be reviewed at least annually. The guidance also suggests that the Standards Committee may wish to meet with group leaders periodically to review arrangements.

In November 2023, the Standards Committee met with leaders of all three political groups on the Council – Plaid Cymru, Independents and Liberal/Labour to agree how this duty

should be monitored and the nature and frequency of the information that should be submitted to the Committee. The following measures were agreed -

1. Group Leaders to make themselves available to meet with the Monitoring Officer, Chair of the Standards Committee and Standards Committee as required,
2. Group Leaders to take steps to support the Monitoring Officer to arrange that Members within their group make themselves available to meet with the Monitoring Officer as required,
3. Group Leaders to take steps with the aim that Members within their group cooperate with the Monitoring Officer and the Standards Committee when an issue is referred to the Monitoring Officer and or the Standards Committee,
4. Group Leaders to record any areas of concern in their Groups and raise them with the Monitoring Officer in a timely manner.
5. Group leaders to support Member attendance at mandatory training events,
6. Group Leaders to complete the Group Leader proforma, promoting compliance with the Code of Conduct, as required,
7. Group Leaders to meet with the Standards Committee on an annual basis (at the first meeting of the Standards Committee) following the Annual Meeting,
8. Group Leaders to meet with the Monitoring Officer on a three-monthly basis and Chair of Standards Committee once during the Council year.

Meetings were held with the Group Leaders and the Monitoring Officer during the year to discuss issues around member conduct In November 2023 a meeting was held between members of the Standards Committee and group Leaders to discuss the roles and to establish criteria for monitoring achievement. As a result of this the criteria set forth above were adopted by the to support reporting on the duty. This regime was adopted by the Standards Committee at its meeting in February 2024. It was also agreed to recommend modifying the Internal Resolution Protocol to give the Leaders a more prominent role in the resolution processes. This has been a positive start to the relationship between the Committee and the Group Leaders. However ensuring members' attendance in Code of Conduct training remains a challenge with many not yet completing the full course despite sessions being held during the period.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Mehefin 2024** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ceir crynodebau o'r penderfyniadau a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon fel **Atodiad**

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

**Atodiad**

**202307903**
**Cwyn**
Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle’r honnwyd bod ganddi fuddiant personol.

**Penderfyniad**
Peidio ag ymchwilio.

Roedd un o’r cysylltiadau honedig yn awgrymu bod gan yr aelod fuddiant yn y mater a drafodwyd. Serch hynny roed yr aelod wedi datgan y buddiant yn y gorffennol ac roedd o’r farn nad oedd y buddiant yn berthnasol yn y mater penodol y tro hwn. Roedd y methiant yn ddigwyddiad ynysig ond atgoffwyd yr aelod o’r angen i ystyried ac adolygu ei dyletswyddau o dan y Cod Ymddygiad. Er y galli’r mater fod yn torri’r cod ni fyddai ymchwiliad yn y budd cyhoeddus.

**202307940**
**Cwyn**
Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle’r honnwyd bod ganddi fuddiant personol. Hefyd honnwyd ei bod wedi gwneud datganiadau yn ystod y cyfarfod nad oeddynt yn wir.

**Penderfyniad**
Peidio ag ymchwilio.

Nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno gefnogi’r honiadau.

**202310118**
**Cwyn**
Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar fater lle’r honnwyd bod ganddi fuddiant personol.

**Penderfyniad**
Peidio ag ymchwilio gan bod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt.

**202310119**
**Cwyn**
Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar fater lle’r honnwyd bod ganddo fuddiant personol. Byddai’r wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd yn cael ei ystyried fel rhan o’r ymchwiliad arall.

**Penderfyniad**
Peidio ag ymchwilio gan bod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Byddai’r wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd yn cael ei ystyried fel rhan o’r ymchwiliad arall.